O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2013 Rhif 143 (Cy, 20)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 24, Abergele, Conwy, i Gyffordd 25, Bodelwyddan, Sir Ddinbych) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Therfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2013

Gwnaed *28 Ionawr 2013*

Yn dod i rym *9 Chwefror 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig neu ei wahardd ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 9 Chwefror 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 24, Abergele, Conwy, i Gyffordd 25, Bodelwyddan, Sir Ddinbych) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Therfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2013.

2. —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 07:00 o'r gloch ar 9 Chwefror 2013 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" ("*the length of the trunk road*") yw'r darn o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A55 rhwng Abergele a Bodelwyddan sy'n ymestyn o ganolbwynt y danbont orllewinol wrth Gyffordd 24, Abergele, ym Mwrdeistref Sirol Conwy, i ganolbwynt y drosbont wrth Gyffordd 25, Bodelwyddan, yn Sir Ddinbych.